# Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Hydref 2003 |
| **Amser:** | 09:00 |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Cynnig i sefydlu Grwp Rhwydwaith ar Ehangu |

## Diben

1. Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 26 Mehefin, cytunodd yr aelodau â'r argymhelliad ym mhapur EUR (2) 01-03 (p5) i ddirwyn y Gweithgor Ehangu i ben ond gan ofyn am fwy o wybodaeth am gylch gorchwyl y grwp rhwydweithio a oedd i'w sefydlu a sut y câi ei redeg.

## Argymhelliad

2. Gwahoddir aelodau i nodi’r cylch gorchwyl a dull gweithio'r grwp dan sylw.

## Cefndir

3. Mae'r Gweithgor Ehangu wedi bod yn bwysig iawn o ran mynd â'r agenda ehangu yn ei blaen yng Nghymru, ond nid oes ei angen mwyach yn y cyd-destun hwnnw. Fodd bynnag, un o'i lwyddiannau mawr oedd clustnodi a rhestru'r gweithgarwch sylweddol sy'n digwydd ledled Cymru, gwasgaru'r wybodaeth i gynulleidfa ehangach, datblygu partneriaethau ac annog pobl i gydweithio. Teimlai'r grwp bod y gwaith hwn yn bwysig ac y dylai fynd yn ei flaen. Cynigir felly sefydlu grwp swyddogol, o bob rhan o dîm Cymru, i greu fforwm addas.

4. Byddai'r grwp yn canolbwyntio ar y gwledydd sydd ar fin dod yn aelodau o'r UE (y gwledydd a'r rhanbarthau sy'n cael eu henwi yn y Cynllun Gweithredu ar Ehangu), y gwledydd sydd wedi gwneud cais a'r gwledydd a all wneud cais. Byddai'n datblygu partneriaethau ac annog cydweithio, cyd-ddysgu a rhannu profiadau, ond gan gydnabod polisiau a blaenoriaethau gwahanol ei aelodau.

5. Byddai ganddo aelodaeth mor eang â phosibl, yn cynnwys cyrff o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mater i'r grwp fyddai penderfynu pa mor aml y byddai'n cwrdd, ond efallai ddwy neu

deirgwaith y flwyddyn, ond â'r hawl i gwrdd cyn hynny naill ai fel grwp neu fel rhan o grwp pe bai mater arbennig yn codi. Byddai'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, yn cadeirio'r grwp, yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol ac yn chwilio ac yn dosbarthu gwybodaeth.

## Cylch Gorchwyl

6. Roedd y Geithgor Ehangu yn teimlo y dylid sefydlu grwp rhwydweithio o gyrff sy'n gysylltiedig â'r darpar-aelodau a'r gwledydd sydd wedi gwneud cais. Rôl y grwp fydd:

- Cynnig fforwm i'w aelodau a rhoi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad.
- Hybu cyd-ddysgu a rhannu gwybodaeth a phrofiad.
- Datblygu partneriaethau a hybu cydweithio lle bo cyfiawnhad.

## Cydymffurfio

7. Rheol Sefydlog 15.1(iii) a (iv).

## Goblygiadau Ariannol

8. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn codi o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

## Cyswllt yn yr Is-adran

Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, Pennaeth y Gangen, Philip Bird Est 3514.

**Rhodri Morgan AC**

**Prif Weinidog Cymru**